**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23ain Hydref 2006**

## CYLLIDO'R GWASANAETH TÂN AC ACHUB

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i argymhellion y Panel Gweithredol o ran ymateb i ohebiaeth ddiweddar oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ynghylch y newidiadau posib i drefn gyllido'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

## Cyflwyniad

**2.** Ysgrifennodd y Gweinidog, Mrs Edwina Hart, at Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Fehefin 12fed 2006. Yn ei llythyr, Atodiad 1, roedd yn gofyn am farn yr Awdurdod ynghylch y syniad o gyfyngu ar unrhyw gynnydd blynyddol yn ei gyllideb i gynnydd Grant Cefnogi Refeniw ei awdurdodau unedol cyfansoddol.

**3.** Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am y cyfle i drafod y bwriad, ond esboniodd y byddai'n rhaid i'r Panel Gweithredol drafod y mater yn y lle cyntaf cyn i'r Awdurdod llawn ei drafod yn ei gyfarfod ar Hydref 23ain. Wedi hynny, byddai'r Awdurdod mewn sefyllfa i ymateb yn llawn.

**Cefndir**

**4.** Ar hyn o bryd, nid awdurdodau praeseptio fel yn Lloegr yw'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae pob Awdurdod Tân ac Achub yn gweithio'n agos â'u hawdurdodau cyfansoddol yn y broses o osod y gyllideb er mwyn cael cyfrifiad 'treuliau net' sy'n ddarbodus ond hefyd yn dderbyniol yn lleol.

Mae'r system bresennol yn caniatáu i gynrychiolwyr a etholwyd yn lleol bennu lefel y gwasanaeth y bydd eu hetholwyr yn ei dderbyn gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae cyllidebau'n cael eu gosod yn lleol gan ddeall anwadalrwydd y costau sy'n cael eu harwain gan y gofyn. Maent yn cael eu gyrru gan lefelau gweithgarwch sy'n anodd ei gyfrifo'n fanwl gywir, megis y tanau glaswellt yn ddiweddar a olygodd fod y gwariant ar droi allan wedi codi o £93,000 y mis i £286,000. Mae cronfeydd darbodus wrth gefn yn rhan o'r gyllideb i gwrdd ag unrhyw gynnydd mewn costau heb orfod gofyn am ardollau atodol gan bob awdurdod unedol.

**5.** Mae bwriadau'r Gweinidog yn codi rhai pwyntiau diddorol, a dylid eu hystyried yn y cyd-destun cyffredinol o gyllido gwariant llywodraeth leol trwy'r setliad Grant Cefnogi Refeniw. Bydd yr aelodau'n gyfarwydd gyda sut mae hyn yn gweithio mewn perthynas ag Awdurdodau Unedol ond nid yw wedi codi o'r blaen mewn perthynas â gwariant gwasanaethau unigol. Y pwyntiau isod yw'r rhai sy'n ymddangos yn briodol eu hystyried mewn perthynas â'r bwriadau.

**6.** Mae'r bwriad i gyfyngu ar gynnydd yn y gyllideb i gynnydd y Grant Cefnogi Refeniw i'w weld yn rhoi elfen o sicrwydd ond hefyd i'w weld yn effeithio ar y broses o benderfynu'n lleol ac, efallai, yn cynyddu'r rheolaeth ganolog o gyllido.

Hefyd, byddai cwestiwn ynghylch pa ffigwr Grant Cefnogi Refeniw i'w ddefnyddio oherwydd fel allai llawer o rai gwahanol

**Cefndir** *(parhad)*

fodoli. Fe ellid ystyried cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan neu gyfartaledd sy'n berthnasol i'r Awdurdodau Cyfansoddol, ac fe fyddai'r ddau yn wahanol oherwydd y cydrannau perthnasol yn y setliad Grant Cefnogi Refeniw.

Bydd yr Aelodau'n gwybod hefyd bod rhai agweddau ar y setliadau Grant Cefnogi Refeniw wedi cael eu "nodi" mewn perthynas â rhai gwasanaethau penodol er nad yw'r cyllid wedi ei neilltuo o reidrwydd. Hefyd, mae'r setliadau'n cynnwys "trosglwyddiadau i mewn ac allan" sy'n ymwneud â rhai gwasanaethau penodol, ac sydd wedi eu bwriadu ar gyfer cyllido'r gwasanaethau hynny'n unig. Fe allai'r ffactorau cymhleth hyn arwain at gynnydd gwaelodol ar lefel is ar gyfer Tân na'r cynnydd cyffredinol yn y Grant Cefnogi Refeniw, a byddai hyn yn amlwg yn dylanwadu ar ystyriaethau yn ystod y broses o osod y gyllideb.

Datblygiad arall mwy diweddar yw dyfodiad arfaethedig y setliadau Grant Cefnogi Refeniw 3 blynedd. Priodol fyddai ystyried sut byddai hyn yn berthnasol i fwriadau'r Gweinidog.

**7.** Mae Atodiad 2 yn ceisio dangos y gwahaniaeth rhwng y cynnydd Grant Cefnogi Refeniw i Gymru gyfan, cynnydd yn y Grant Cefnogi Refeniw yng Ngogledd Cymru a chyllideb y gwasanaeth tân y cytunwyd arni dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r gyllideb y cytunwyd arni wastad wedi bod yn uwch na Grant Cefnogi Refeniw Gogledd Cymru oherwydd cyfuniad o bwysau allanol ar y gyllideb na ellid eu hosgoi, a thwf y cytunwyd arno yn lleol.

Cydnabyddir bod gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei ran i'w chwarae wrth osod cyllidebau sy'n fforddiadwy ac yn cyflwyno'r lefel o wasanaeth sy'n cael ei ddylanwadu gan ystod eang o ffactorau, yn lleol a chenedlaethol ac yn cynnwys cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus. Byddai'n ymddangos bod

**Cefndir** *(parhad)*

angen, felly, geisio peth trafodaeth bellach gyda'r Gweinidog a'i swyddogion a phartïon eraill megis WLGA ac efallai rai swyddogion eraill o Lywodraeth y Cynulliad er mwyn edrych ar yr agweddau ymarferol a'r goblygiadau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Gwybodaeth**

**8.** Cyfarfu Panel Gweithredol yr Awdurdod ar Fedi'r 21ain, i ystyried llythyr y Gweinidog a thermau ymateb yr Awdurdod. Yn ystod y cyfarfod cafodd aelodau'r Panel gyfle i ddarllen llythyr ymateb Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i'r Gweinidog. Gwelir copi o'r llythyr hwn yn Atodiad 3 i'r adroddiad yma.

**9.** Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y Panel argymell i'r Awdurdod y dylai ymateb i lythyr y Gweinidog gan "ddatgan ei fodlonrwydd cyffredinol gyda'r system gyllido bresennol a gwrthod ei chynnig i newid y Cynlluniau Cyfuno fel na allai'r cynnydd blynyddol yn y treuliau net godi'n uwch na'r cynnydd blynyddol yn y Grant Cefnogi Refeniw fel a benderfynir yn flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru"

**Argymhelliad**

**10.** Bod yr aelodau'n cadarnhau penderfyniad y Panel Gweithredol ac yn ymateb i lythyr y Gweinidog yn nhermau'r penderfyniad a ddyfynnir ym mharagraff 9.

Atodiad 2

| **Blwyddyn** | **Cynnydd yn y Grant Cefnogi Refeniw Cymru gyfan** | **Cynnydd yn Grant Cefnogi Refeniw Gogledd Cymru** | **Cynnydd yng Nghyllideb ATAGC** | **Y Prif Bwysau ar y Gyllideb** |
|---|---|---|---|---|
| **2004/05** | 2.22% | 2.50% | 6.12% | • Dyfarniad cyflog i weithwyr yr ochr weithredol<br>• Cynnydd mewn premiymau yswiriant<br>• Dyfodiad y Cynllun Lwfansau i Aelodau |
| **2005/06** | 5.10% | 3.73% | 4.09% | • Cynnydd mewn prisiau ynni<br>• Adolygiadau o Ardrethi Annomestig yng Nghymru<br>• £90K am drwydded am Fap Arolwg Ordnans, a oedd yn arfer bod am ddim |
| **2006/07** | 5.10% | 4.82% | 5.00% | • Cynnydd mewn taliadau pensiynau i ymorol am gost mwy o bensiynwyr<br>• Cynnydd ym mhris tanwydd<br>• Cyflwyno'r Canolfannau Asesu a Datblygu |